

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Iau,  
4 Hydref 2018 yn Canolfan y Fron**

**Minutes of the Finance Committee held at Canolfan y Fron, Thursday 4<sup>th</sup>  
October 2018 at 7.00pm**

## **Yn bresennol / Present**

Cynghorwyr Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Gerwyn Owen; David C Davies; Bryn Williams;  
Eddie Willcox  
David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Cyllid y Cyngor.

### **1 Croeso'r Cadeirydd – Chairman's Welcome**

Croesawyd pawb I'r cyfarfod gan Cyng. Gerwyn Owen sef Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Croesawodd pawb i'r cyfarfod. Aeth yn syth yn ei flaen at y rhaglen.

### **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences**

Pawb yn bresennol.

### **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000**

Ni wnaeth yr un aelod na'r Clerc ddatgan buddiant / No declarations made by any member on any items on the agenda

### **4 Adroddiad Materion yn Codi ar gyfer Cyngor Cymuned Llandwrog – Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben i 31 Mawrth 2018- Issues Arising Report for Llandwrog Community Council – Audit for the year ended 31 March 2018**

Trafodwyd cynnwys adroddiad yr archwilwyr.

Codwyd y materion canlynol-

- 1) Datganiad Llywodraethiant Blynyddol – Arian Rhodd
- 2) Pwerau gwariant – pwer Adran 137 yn cael ei ddefnyddio'n angywir
- 3) Nid yw'r archwilydd mewnol wedi darparu adroddiad manwl o'r gwaith gafodd ei wneud

Trafodwyd gwariant Adran 137.

Ni ellir cofnodi taliad dan Adran 137 os oes grym statudol arall yn bodoli.

Yn ol yr adroddiad gellir ystyried rhoddion ar gyfer clwb neu clybiau cymdeithasol , chwaraeon neu ieuentid lleol o dan Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - pwer i ddarparu cyfleusterau hamdden o fewn neu thu hwnt i'r ardal.

Allai rhodd i Eisteddfod fod wedi ei hawdurdodi dan Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 darparu adloniant a chefnogi'r celfyddydau

### Argymhelliad i'r Cyngor-

- i) *Fod y Cyngor yn derbyn cynnwys yr adroddiad.*
- ii) *Fod y Cyngor yn nodi sylwadau yr Archwilydd na ellir cofnodi taliad dan Adran 137 os oes grym statudol arall yn bodoli.*
- iii) *Fod y Cyngor yn nodi fod taliad i Eisteddfod yn cael ei hawdurdodi dan Adran 145 o Deddf Llywodraeth Leol 1972 -darpariaeth am adloniant a chefnogaeth i'r celfyddydau*
- iv) *Fod y Cyngor yn nodi fod taliad i clwb neu chwaraeon neu ieuencid yn dod o dan grym Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – y grym i ddarparu cyfleusterau hamdden tu fewn neu tu hwnt i'r ardal.*
- v) *Fod y Cyngor yn rhoi copi o'r adroddiad i'r Archwilydd Mewnol iddo ddarparu adroddiad manwl o'r gwaith yn ei archwiliad nesaf 2018-19.*

### Recommendation to the Council-

- i) *For the Council to accept the Auditors Report.*
- ii) *For the Council to note the Auditors comments that payments cannot be recorded under Section 137 if another statutory powers exists.*
- iii) *For the Council to note that payments to Eisteddfodau should be authorised under Section 145 of the Local Government Act 1972 – provision of entertainment and support for the arts*
- iv) *For the Council to note that payments to local social, sports o'r youth clubs should be authorised under Section 19 of the 1976 Local Government Act – power to provide recreational facilities within and outside the area.*
- v) *For the Council to present a copy of the report to the internal auditor to ensure that he completes a detailed report of the work undertaken in his next audit.*

## 5 Cyllideb 2018/19 – Adolygiad Ail Chwarter hyd at 30 Medi 2018 2018/19 Budget - Second Quarter Review to 30 September 2018

Dosbarthwyd gopïau o'r canlynol i pob aelod

- Cyfrif Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2018 i 30 Medi 2018
- Cysoniad y Banc i 30 Medi 2018
- Y Gyllideb yn erbyn Gwir Wariant 30 Medi 2018 ac Ymrwymadau at 31 Mawrth 2019
- Balansau y Cyngor ar 30 Medi 2018
- Datganiadau Banc (y ddau gyfrif) at 30 Medi 2018

'Roedd y Clerc eisoes wedi anfon copïau o'r uchod i pob aelod ymlaen llaw.

Aethpwyd ati i edrych ar rhai pennawdau y gyllideb lein wrth lein ynghyd a balansau y Cyngor.

Eglurodd y Clerc fod yna rhai pennawdau oedd heb ei ymrwymo ond yn y cyfnod hwn gwell fyddai peidio datgelu unrhyw danwariant oherwydd y gwaith ymgysylltu a gwaith sydd ei angen ar llochesi bws. Byddai'r adolygiad trydydd chwarter yn rhoi gwell darlun o'r sefyllfa.

Nodwyd fod y pennawd "**Datblygiadau**" yn dangos yr addasiadau canlynol-

Cyllideb Cychwynol £5,000

**Ychwanegu yn y flwyddyn-**

Adoddiad Llochesi Bws £2,000

Tanwariant 2017-18 £1,467

**Llai addasiadau-**

Amcangyfrif ar gyfer Arfrannu Swydddy Rheolwr (£3,000)

Trosglwyddo i'r Panel Ymgysylltu (£1,000) — uwchlaw £1,500 yn y gyllideb. Ychwanegu ar gyfer dosbarthu ac argraffu

Gwaith ychwanegol Lloches Cae'r Moel (£1,070) n et o £200 cyfraniad gan Grwp Moel Tryfan

Cofebfeini Brynrhos a Bryn'rodyn (£800)

Eraill (£786)

Yn gadael £1,811

Sylwadau aelodau –

**AWJ** – o'r farn fod angen nodi yn glir yn y cofnodion mai amcangyfrif ydi'r swm sydd wedi ei nodi ar gyfer arfarniad swydd y Rheolwr gan nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto.

**HJO** – heb dderbyn ffurflen i'w eithrio o dderbyn lwfans £150 yn 2018-19. Ddim yn disgwyl y byddai aelodau yn ei hawlio. Rheolwr Cyllid – ddim darpariaeth yn y gyllideb eleni gan fod pob aelod wedi datgan na fyddent ynei hawlio.

Balansau fel adroddwyd ond wedi ei addasu ar gyfer yr uchod felly -

<b>Cysoniad y Banc i 30 Medi 2018 / Bank Reconciliation to 30 September 2018</b>	
Balansau'r Banc i 30 Medi/September 2018 – Balances in the Bank	(£46,813.92)
- Llai Credydwy'r a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£3,615.59
+ Dyledwyr / Debtors	(£1,322.28)
<b>Is-gyfanswm - Cyfanswm yr Arian ar 30 Medi 2018 / Sub Total</b>	<b>(£44,520.61)</b>
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	dim
<b>Is-gyfanswm / Sub Total</b>	<b>(£44,520.61)</b>
- Gwariant ymrwymedig i 31/3/2019 / Committed Expenditure to 31 March 2019	£40,343.70
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2019/ Income due to 31 March 2019	(£1,823.09)
<b>Is-gyfanswm / Sub Total</b>	<b>(£6,000.00)</b>
- Llai Cronfeydd Penodol (£5,000 AWG Cronfa Adnewyddu Offer Cae Chwarae) / Less Specific Funds (£5,000 in reserve & £1,000 Playing Fields Renewal Fund)	£6,000.00
<b>Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2019 / Total Overspent (u spend expected as at 31 March 2019</b>	<b>(dim)</b>

<b>Cronfeydd y Cyngor ar 30 Medi 2018 / Specific Funds as at 30 September 2018</b>	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve Fund	(£5,000.00)
Cronfa Adnewyddu Offer Caeau Chwarae / Playing Fields Renewal Fund	(£1,000.00)
<b>Cyfanswm y Cronfeydd / Total Specific Funds</b>	<b>(£6,000.00)</b>

**Cymeradwyd y papurau ac fe'i arwyddwyd gan Cadeirydd y Pwyllgor**

**Argymhelliad i'r Cyngor -**

- i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel a nodwyd uchod**
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn nad oes tanwariant wedi ei adnabod yn y cyfnod hwn ond yn adolygu y sefyllfa eto yn yr adolygiad trydydd chwarter.**
- iii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo i lunio cynllun blaenoriaeth gwariant ar gyfer 2018-19 i adnabod unrhyw ofyn ar y gyllideb eleni. Bydd yr ymgynghoriad gyda'r gymuned yn llunio blaenoriaeth gwariant 2019-20 a thu hwnt**

**Recommendation to the Council -**

- i) That the Council accepts that the balances as noted are correct**
- ii) That the Council notes that there is no underspend at this stage but the situation will be reviewed in the third quarter monitoring report.**
- iii) That the Council asks the Cemeteries & Property Committee to draw a list of the Councils Spending Priorities for 2018-19 and beyond. The consultation result with the community will complete the Spending Priorities for 2019-20 and beyond.**

## **6 Cyllideb 2019-20 – Cam Cyntaf – 2019-20 Budget – Stage 1**

Dosbarthwyd y gyllideb gychwynnol i'r aelodau oedd wedi ei ddarparu gan y Clerc ynghyd ac adroddiad ar y gyllideb gychwynnol

Nodwyd gan y Rheolwr Gweinyddol a Chyllid -

Sefydlwyd cyllideb 2018-19 fel a ganlyn –

Gwariant Gross £56,390

Llai- Incwm Ffioedd a Grant (£3,860)

Llai Defnydd o Balansau (£4,530)

**Gwariant Net (£48,000)** y galw ar y trethdalwr- sef y “praesept”

I gadw at yr un lefel o wariant yn 2019-20 bydd rhaid cynyddu'r praesept £4,540 gan mai defnydd un tro oedd y balansau a ddefnyddiwyd yn 2018-19. Bydd y gyllideb yn parhau gyda £5,000 ar gyfer Datblygiadau/Blaenioraethau.

Nid oes disgwyl llithriad sylweddol yng ngwariant/incwm 2018-19. Adolygiad Monitro Chwarter 2 yn awgrymu sefyllfa niwtral. Efallai, erbyn adolygiad trydydd chwarter, y byddwn mewn gwell sefyllfa i adnabod unrhyw lithriad. Annhebygol fodd bynnag oherwydd ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu gyda'r gymuned ynghyd a gwariant all wynebu'r Cyngor heb gyllideb ar ei gyfer ee biniau halen

Ar gyfer 2019-20 bydd rhaid ystyried cynnwys y gwariant canlynol yn barhaol yn y gyllideb—

Arfarnu Swydd Rheolwr Gweinyddol a Chyllid £2,450 amc

Pensiwn y Rheolwr £2,000 (hawl i ymuno a chynllun LGPS)

Lwfansau Aelodau £2,100

Chwyddiant £550 - anorfod ar rhai penawdau

Cyllideb ar gyfer Datblygiadau £4,520

Eraill (£620)

**Cyfanswm £11,000**

Bydd rhaid i'r Cyngor ystyried cynyddu'r gyllideb ar gyfer materion ddaw allan o ganlyniad yr holiadur Ymgysylltu, megis prynu gwasanaeth Biniau Halen gan Gyngor Gwynedd.

Gan nad oes balansau yn debygol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, ac os ydi'r Cyngor am gynnwys swm o £5,000 ar gyfer Datblygiadau bydd rhaid i'r Cyngor ystyried y gyllideb ganlynol-

Gwariant Gross £63,850

Llai- Incwm Ffioedd a Grant (£4,850)

Llai Defnydd o Balansau dim

**Praesept (£59,000)**

Praesept 2018-19 (£48,000)

**Cynnydd yn 2019-20 o £11,000, neu 22.9%**

### **Sylwadau Aelodau –**

AWJ – yn disgwyl i aelodau ddatgan ymlaen llaw i osod y gyllideb eu bwried i hawlio lwfans. Hefyd yn gofyn i'r Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor benderfynu, cyn gosod cyllideb 2019-20, os oes dymuniad ganddo i ymuno a chynllun pensiwn LGPS, yn unol a'r cytundeb cyflogaeth.

### **Argymhelliad i'r Cyngor.**

- i) Fod y Cyngor yn derbyn fod y Pwyllgor Cyllid wedi cychwyn adnabod gwariant sydd ei angen gan y Cyngor ar gyfer 2019-20.*
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn fod y gyllideb gychwynnol yn cynnwys £4,000 ar gyfer cadw toiled y Marine ar agor yn 2018-19.*
- iii) Fod y Cyngor yn rhoi arweiniad i'r Pwyllgor Cyllid ynglyn a cyfrannu tuag at gadw toiled y Marine ar agor yn 2018-19*

- iv) **Fod y Cyngor yn derbyn y bydd y praesept 2019-20 yn cynyddu , o bosibl chymaint â £11,000, neu 22.9% wrth gynnwys cyllideb datblygiadau o £5,000, cost arfarnu swydd y Rheolwr, cyfraniad i gynllun pensiwn y Rheolwr a Lwfansau Aelodau.**

**Committee Recommendations.**

- i) *For the Council to accept that the Committee has started to identify expenditure required in 2019-20*
- ii) *For the Council to accept that the budget, at this stage, includes £4,000 as a contribution to Gwynedd Council to keep the Marine toilet open in 2018-19*
- iii) *For the Council to give guidance to the Committee regarding the £4,000 contribution*
- iv) *For the Council to note that the 2019-20 precept could rise by £11,000 or 22.9% to finance the cost of evaluating the Managers salary, the contribution towards the Managers pension, and members allowances.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 yr hwyr**

**Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -**

**Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor**

**Dyddiad -**